Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Asesiad Corfforaethol - Cynnydd gyda chynigion ar gyfer gwella

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Blwyddyn archwilio: 2014-15

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2014

Cyfeirnod y ddogfen: 641A2014

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Melanie Watson (KPMG LLP).

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Crynodeb	4
Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd fel rhan o Asesiad Corfforaethol 2013 yn effeithiol	5
Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith ar gyfer monitro cynnydd yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer gwella	5
Gall y Cyngor ddangos bod camau gweithredu naill ai ar y trywydd iawn neu eu bod wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r cynigion ar gyfer gwella.	5
Atodiadau	
Asesiad Corfforaethol 2013 - Cynigion ar gyfer Gwella	6

Adroddiad cryno

Crynodeb

1. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad corfforaethol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2013 fel rhan o'i rhaglen ledled Cymru. Cyflwynodd yr adroddiad a ddeilliodd o hynny nifer o gynigion ar gyfer gwella.

2. Ceisiodd yr adolygiad ateb y cwestiwn canlynol:

- **A yw'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd fel rhan o Asesiad Corfforaethol 2013 yn effeithiol?**

3. Fel rhan o'n gwaith, adolygwyd dogfennaeth berthnasol a siaradwyd â swyddogion y Cyngor a oedd yn gyfrifol am fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella.

4. Nododd ein hadolygiad fod **y Cyngor yn mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd fel rhan o Asesiad Corfforaethol 2013 yn effeithiol.** Daethom i'r casgliad hwn am fod y Cyngor:

- wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro cynnydd yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer gwella; ac
- yn gallu dangos bod camau gweithredu naill ai ar y trywydd iawn neu eu bod wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r cynigion ar gyfer gwella.

Adroddiad

Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd fel rhan o Asesiad Corfforaethol 2013 yn effeithiol

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith ar gyfer monitro cynnydd yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer gwella

5. Mae gan y Cyngor gynllun gweithredu i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o'r Asesiad Corfforaethol a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r Grŵp Gwella ac Archwilio (GGA) yn goruchwylio'r camau gweithredu sy'n deillio o adroddiadau rheoleiddio allanol, fel yr Asesiad Corfforaethol, a chyflwynir adroddiad ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn.

Gall y Cyngor ddangos bod camau gweithredu naill ai ar y trywydd iawn neu eu bod wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r cynigion ar gyfer gwella

6. Rhoddir canfyddiadau manwl o'n hadolygiad yn erbyn pob un o'r cynigion ar gyfer gwella yn Atodiad 1.

Atodiad 1

Asesiad Corfforaethol 2013 - Cynigion ar gyfer Gwella

	Cynnig ar gyfer gwella	Cynnydd wrth fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella (Hydref 2014)
C1	Dylai'r Cyngor weithio gyda'i ysgolion a'r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, sef GwE, er mwyn gwella gwerth am arian y system ysgol gynradd.	Mae'r Cyngor yn aros am ganlyniad adolygiad gwerth am arian o GwE. Mae gan y Cyngor Raglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd (Cam 1) ar waith. Arweiniodd hyn at gau dwy ysgol fach yn 2014, gan gynnwys Ysgol Llangwm a oedd yn cynrychioli'r gost uchaf fesul disgybl yn y Fwrdeistref Sirol. Ymgynghorir â phedair ysgol arall ynghylch cynigion i'w cau. Cyflwynir adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r Pwyllgor Craffu ar Gwsmeriaid, a disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Hydref 2014. Ceisir cymeradwyaeth ar gyfer Cam 2 o'r Rhaglen Foderneiddio. Yn 2012/13 cafodd wyth ysgol gynradd yn y Fwrdeistref Sirol adroddiadau arolygu beirniadol gan Estyn a oedd yn gofyn am waith dilynol. Yn dilyn ailymweliadau gan Estyn yn 2013/14, mae'r wyth ysgol bellach allan o'r categori critigol hwn. Gwellodd rhai agweddau ar gyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd yng Nghonwy yn 2014. Dengys y dangosydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen welliant o bedwar pwynt canran ers 2013, gan arwain at safle cymharol o 13^{eg} allan o 22. Gwellodd cyfran y plant 11 oed a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd ychydig yn 2013, ond gostyngodd safle'r Cyngor yng Nghyfnod Allweddol 2 o 15^{fed} i 17^{eg}. Mae'r safleoedd cymharol ar gyfer Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg yn 10^{fed} (allan o 22) ac yn 10^{fed} ar gyfer Darllen, Ysgrifennu, Mathemateg a Gwyddoniaeth hefyd. Mae cost wedi'i chyllidebu'r system ysgol gynradd (gan gynnwys cyllid dirprwyedig a chyllid nad yw'n ddirprwyedig) wedi lleihau ychydig o £5,145 fesul disgybl (3^{ydd} uchaf) yn 2013-14 i £5,077 (4^{ydd} uchaf) yn 2014-15.

	Cynnig ar gyfer gwella	Cynnydd wrth fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella (Hydref 2014)
C2	Wrth adrodd ar ei dargedau, dylai'r Cyngor egluro'n gliriach y rheswm dros unrhyw ostyngiad ymddangosiadol yn lefel yr uchelgais y ceisir ei chyflawni.	Mae adolygiad 2014/15 y Cyngor o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2012/2017 yn nodi'n glir y rhesymau dros unrhyw newid mewn targedau. Er enghraifft, mae targed is o 11 i wyth yn 2014/15 ar gyfer traethau sy'n ennill dyfarniadau o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol ac adolygiad o b'un a ddylid gwneud cais am ddyfarniadau 'traeth gwyrdd' yn ogystal â dyfarniadau 'baner las'.
C3	Dylai'r Cyngor sicrhau'r canlynol: • bod cofnodion y cabinet yn cynnwys pob argymhelliad craffu perthnasol; • ei bod yn amlwg i bawb sy'n bresennol mewn cyfarfodydd pwy yw'r aelodau pwyllgor o gymharu â chynghorwyr a swyddogion eraill; a • bod pwyllgorau trosolwg a chraffu yn dwyn deiliaid portffolio i gyfrif yn gynyddol yn hytrach na swyddogion.	Mae'r Cyngor wedi diwygio ei dempled ar gyfer adroddiadau'r cabinet er mwyn cynnwys paragraff gorfodol newydd (adran 11) sy'n nodi unrhyw sylwadau perthnasol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Lle nad oes amser i ddiweddaru adroddiadau'r Cabinet gyda sylwadau neu argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (e.e. pan fo'r cyfarfodydd yn agos at ei gilydd), cyflwynir y cofnodion drafft yng nghyfarfod y cabinet ac mae swyddogion pwyllgor wedi cael cyfarwyddiadau i gofnodi argymhellion craffu yng nghofnodion y cabinet. Er mwyn dangos yn glir pwy yw'r aelodau pwyllgor a phwy yw'r cynghorwyr neu swyddogion eraill mewn cyfarfodydd craffu, newidiwyd y cynllun seddi. Mae gan aelodau pwyllgor ardal eistedd benodol ac mae Cadeiryddion a swyddogion pwyllgor yn sicrhau y glynir wrthi. Cyflwynwyd adroddiad i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Awst 2014 er mwyn ystyried sut y dylai deiliaid portffolio gael eu dwyn i gyfrif. Argymhellodd y pwyllgor y dylai aelodau'r cabinet fynychu cyfarfodydd craffu, ond ei bod yn well i swyddogion gyflwyno papurau er mwyn osgoi sefyllfa lle caiff deiliaid portffolio ddylanwad gormodol ar aelodau'r pwyllgor. Hefyd, argymhellodd y pwyllgor, yn lle'r sesiynau 'Cwrdd â'r Cabinet' presennol, y dylai Aelodau'r Cabinet gael eu gwahodd i fynychu'r Fforwm Datblygu Aelodau a Gwybodaeth, yn eu tro, er mwyn rhoi cyngor ar faterion strategol yn y dyfodol neu faterion sy'n berthnasol i'w portffolio. Bydd y Fforwm yn rhoi cyfle i aelodau pwyllgor ofyn cwestiynau i aelodau'r cabinet. Hefyd, argymhellwyd y dylai 'Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet' ymddangos fel eitem sefydlog ar holl agendâu'r pwyllgor craffu. Cytunodd y Cyngor ar yr argymhellion hyn ym mis Hydref 2014.

	Cynnig ar gyfer gwella	Cynnydd wrth fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella (Hydref 2014)
C4	Dylai'r Pwyllgor Archwilio gymryd camau mwy systemataidd wrth sicrhau ei hun y gweithredir ar argymhellion a wneir mewn adroddiadau archwilio ac arolygu mewnol ac allanol yn briodol.	Mae'r Cyngor wedi nodi'n gliriach y prosesau sydd ar waith i sicrhau ei hun y gweithredir ar argymhellion archwilio mewnol a rheoleiddwyr allanol. Paratowyd siartiau llif gweithdrefnol mewnol er mwyn egluro'r prosesau. Caiff holl argymhellion rheoleiddwyr allanol eu monitro gan Grŵp Gwella ac Archwilio'r Cyngor. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn adolygu amserlen o argymhellion risg uchel sy'n weddill o Adroddiadau Archwilio Mewnol â sicrwydd cyfyngedig ddwywaith y flwyddyn, ynghyd ag argymhellion sy'n weddill gan reoleiddwyr allanol. Caiff argymhellion risg uchel eu monitro mewn Adolygiadau o Berfformiad Gwasanaethau, a fynychir gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Swyddog Arweiniol y Cabinet ar gyfer perfformiad ac aelodau perthnasol eraill. Mae'r Pennaeth Archwilio a Chaffael yn cyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio bob mis. Cynhelir sesiynau briffio'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter, yr wythnos cyn y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Cadeirydd Cyllid ac Adnoddau yn bresennol, gyda chymorth y Grŵp Gwella ac Archwilio.
C5	Wrth fynd ati i gynllunio a chyflawni'r arbedion ariannol sylweddol pellach sydd eu hangen yn y blynyddoedd i ddod, dylai'r Cyngor wneud y canlynol: • datblygu cynlluniau ariannol tymor hwy sy'n caniatáu ar gyfer amserlenni gweithredu rhaglenni trawsnewid uchelgeisiol yn well; • gosod mesurau a thargedau llwyddiant addas a phenodol o ran rhaglenni trawsnewid y Cyngor; a • sicrhau bod y timau Adnoddau Dynol, TGCh a rheoli asedau yn darparu mewnbwn cyson a chydgysylltiedig wrth gefnogi'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau a thrawsnewid.	Fel rhan o broses foderneiddio barhaus y Cyngor, mae tair prif raglen drawsnewid ar waith: • Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol; • Rhaglen Ailstrwythuro'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau; a'r • Rhaglen Foderneiddio Gorfforaethol (ar draws yr Awdurdod). Mae pob un o'r tair rhaglen drawsnewid ar wahanol gamau o aeddfedrwydd. Caiff pob un ei chynnal gan ddilyn egwyddorion rheoli prosiect. Mae gan bob un drefniadau llywodraethu cydnabyddedig ar waith sy'n cynnwys cymorth prosiect penodol. Mae cynlluniau gwireddu buddiannau ar waith. Mae pob budd wedi'i fapio a chynlluniwyd camau er mwyn sicrhau bod y budd yn cael ei wireddu. Y Rhaglen Foderneiddio Gorfforaethol yw'r mwyaf newydd o blith pob un ac nid yw rhai buddiannau eto'n cynnwys mesurau sylfaenol neu fesurau targed ond mae cynlluniau ar waith i'w pennu. Cafodd yr achos busnes dros y Rhaglen Foderneiddio Gorfforaethol (elfen Doethwaith) ei fabwysiadu'n ddiweddar. Mae'n ystyried yr opsiynau ar gyfer gweithredu Doethwaith, fforddiadwyedd y dewis ddull ymlaen ac mae hefyd yn profi beth sy'n ymarferol o ran cyflawni o fewn yr amserlen hysbys.

	Cynnig ar gyfer gwella	Cynnydd wrth fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella (Hydref 2014)
		Mae'r Cyngor wedi llunio Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2015-16 a 2017-18 fel rhan o'r papurau cyllidebol ar gyfer 2014-15. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys amcangyfrifon o'r arbedion a allai ddeillio o'r gwahanol fentrau sy'n mynd rhagddynt. Wrth edrych ar ei waith cynllunio ariannol o safbwynt tymor hwy, mae'r Cyngor yn amcangyfrif, dros y tair blynedd o 2015-16, y bydd angen iddo sicrhau incwm ac arbedion ychwanegol gwerth tua £29.5 miliwn. Disgwylir i tua £14.9 miliwn ddeillio o raglenni trawsnewid, gyda £14.6 miliwn arall yn deillio o gyfuniad o arbedion cost eraill a chodiadau yn y Dreth Gyngor yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi gwella ei broses cynllunio ariannol Tymor Canolig. Bydd angen i'r broses hon ddatblygu wrth i'r heriau ariannol barhau. Caiff dysgu ei rannu'n effeithiol rhwng rhaglenni trawsnewid er mwyn cefnogi gwaith cydgysylltu a chysondeb. Er enghraifft, mae Bwrdd y Rhaglen Foderneiddio Gorfforaethol a Bwrdd yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau (ERF) yn rhannu rhai aelodau cyffredin. Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol ar y tri bwrdd trawsnewid. Mae arweinwyr Adnoddau Dynol pob rhaglen yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn rhannu dulliau gweithredu a materion, ac mae'r Grŵp Swyddogion Prosiect yn cyfarfod bob mis i wneud yr un peth. Defnyddiwyd dysgu ar weithio ystwyth mewn meysydd lle y'i gweithredwyd eisoes e.e gwasanaethau cymdeithasol ac ERF i lunio canllawiau'r Fframwaith Doethwaith ar gyfer y Cyngor ehangach. Mae staff nad ydynt yn chwarae rhan uniongyrchol yn y Rhaglen Foderneiddio Gorfforaethol yn teimlo'n hyddysg am y rhaglen a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni, drwy gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy Friffiadau Tîm neu gyfarfodydd rheoli.
C6	Dylai'r Cyngor weithio gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol er mwyn gwella gallu'r Bwrdd i fonitro a rheoli ei berfformiad.	Daeth adolygiad gan Bartneriaeth Strategol Leol Conwy a Sir Ddinbych ym mis Chwefror 2014 i'r casgliad y bydd yn canolbwyntio ar un flaenoriaeth ar gyfer 2014-15, sef *Bod yn Iach ac yn Annibynnol*, ac ar y tair thema gordewdra mewn plant, camddefnyddio alcohol a phoblogaeth sy'n heneiddio. Cefnogwyd hyn gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2014. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a fydd yn gyfrifol am gyflawni canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r economi (Canlyniad 5 ar gyfer Conwy). Adolygir themâu eraill ar sail eithriad. Mae'r newidiadau hyn yn anelu at fonitro perfformiad a lleihau dyblygu.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk